



Gwerthusiad Doethineb Gwledig Astudiaeth Achos 3: Gweithgarwch rhyng-genedlaethol drwy Doethineb Gwledig – Montgomerie Court ac Ysgol Gynradd Eaglesham, Ionawr 2020



Ar ddechrau Doethineb Gwledig, daeth pob cymuned ynghyd i drafod y problemau allweddol i bobl hŷn sy'n byw yno a sut y gallai Doethineb Gwledig helpu. Gwnaeth y problemau hyn helpu i lywio'r blaenoriaethau ar gyfer y Gweithwyr Datblygu, eu hymgysylltiad â phobl hŷn a gwaith gyda sefydliadau. Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn amlygu un enghraifft o beth sydd wedi cael ei gyflawni a'i gynnal yn Eaglesham, yr Alban.

"Mae'r plant yn gwneud eu gorau i ni - mae'n wych - rwy'n ei fwynhau'n fawr".
(Preswlydd Montgomerie Court.)

Mae plant wedi bod yn ymweld â phreswylwyr Montgomerie Courts ers rhai blynnyddoedd.

"Galwodd y plant heibio i ganu adeg y Nadolig - a daethant ag anrhegion adeg Diolchgarwch"

Mae pawb yn mwynhau hyn, ond fel y dywedodd preswlydd arall y tai gwarchod yn Eaglesham, ***"roeddem eisiau mynd allan"***.

Dyna lle cynigiodd y Gweithiwr Datblygu Doethineb Gwledig help llaw, cysylltodd â'r Warden yn Montgomerie Court a'r Cydlynnydd Cysylltiadau Cymunedol yn yr ysgol. Gweithiodd y tair o fenywod mentrus hyn gyda'i gilydd i esgor ar ***"newid mawr, gan fod y preswylwyr bellach wedi dechrau mynd i'r ysgol"***.

Mae ymweliadau diweddar wedi cynnwys gwrandao ar straeon Swffragetiaid, dyfalu pwy yw pwy mewn lluniau babis, a oedd yn ***"anodd, fymryn yn heriol"*** a bod yn gynulleidfa werthfawrogol ar gyfer perfformiadau cerddorol yn amrywio o Oliver Twist i benillion a chaneuon Albanaidd,

pan eglurodd y preswylwyr ystyron y geiriau Gaeleg yr Alban.

Mae'r plant yn dal i ymweld â Montgomerie Court ond erbyn hyn, y preswylwyr sy'n rhannu eu sgiliau gyda nhw, er enghraifft adeg y Pasg, pan wnaethant ddangos i'r disgyblion sut i beintio, addurno a rholio wyau wedi'u berwi'n galed. Neu pan mae plant a phobl hŷn yn dysgu gyda'i gilydd, fel pan ***"ddaeth un o'r tadau i mewn gyda'r plant adeg y Flwyddyn Newydd Tseineidd a dangos i bawb sut mae gwneud moch origami"***.

Nid yw'n cymryd llawer i gerdded i'r ysgol, sydd dros y ffordd. Mae chwech neu saith o breswylwyr yn mynd yno'n rheolaidd i wneud gweithgareddau, ac mae bron pawb yn cymryd rhan pan mae'r plant yn dod i Montgomerie Court.



Y gwahaniaeth mae'n ei wneud

Felly sut mae'r gweithgareddau a'r perthnasoedd newydd hyn yn gwneud gwahaniaeth i'r disgyblion a'r preswylwyr? **Eglura un disgybl ei fod yn hoff o "dreulio amser gyda phobl hŷn gan eich bod yn gallu eistedd i lawr a chael sgwrs - mae ganddynt amser i chi".** Ar y llaw arall, mae ei ffrindiau **"yn rhedeg o gwmpas drwy'r amser"**.

Mae treulio amser gyda phlant yn amlwg yn bwysig i'r bobl hŷn. Ychwanegodd preswyllydd **"Mae plant yn aml eisiau dweud wrth eu rhieni beth maent wedi bod yn ei wneud, ond mae eu mamau yn aml ar y ffôn neu gyda'r teledu ymlaen"**.

Mae'r preswylwyr hefyd yn mwynhau treulio amser gyda'r bobl ifanc ac mae ganddynt **"ddiddordeb yn y gwersi ac yn rhyfeddu at y rhyddid sydd ganddynt - yn cael symud o un lle i'r llall, ddim yn gorfod eistedd wrth ddesg"**. Dywedodd un **"mae'n wych eu gweld yn gwneud cymaint o bethau - feiolin, gitâr, canu!"**



Poster a wnaed gan ddisgyblion yn gwahodd preswylwyr i weithgareddau

"Mae'r plant yn gyfeillgar, gofalgar a pharchus pan maent yng nghwmni'r bobl hŷn".

Gwnaeth un preswlydd fwynhau annog disgybl i wneud cerdyn Sul y Mamau, lle helpodd **"i dynnu llun o wyneb gan nad oedd y ferch fach yn gwybod sut i wneud hynny"**. Sylwodd yr athro ar hyn a dywedodd eu bod yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd.

Ychwanegodd y preswlydd nad **"oes neb o'r oedran yma yn ei theulu hi bellach"** ac felly mae'n braf gweld y plant, mae **"fel cael wyrion"**.

Mae preswlydd arall wedi adrodd straeon wrth y plant am ei deithiau pysgota yn yr Ucheldir i ddal brithyll ac mae wedi mwynhau'r cyfle i roi cynnig ar bethau newydd **"fel pan wnaeth y bechgyn wneud car allan o Lego a'i yrru yn defnyddio iPad"**. I'r gwrthwyneb, mae wedi dangos i'r bechgyn sydd wedi'u cyfareddu, sut mae dweud yr amser gan ddefnyddio 'cloc gyda bysedd' gan mai dim ond clociau digidol y gall y rhan fwyaf ohonynt eu defnyddio.

Dros amser, mae perthnasoedd wedi datblygu rhwng y plant a'r preswylwyr sydd wedi arwain at lythyru, gan ddechrau gyda llythyr mewn parsel Diolchgarwch. Dywed un preswlydd: **"mae'n hyfryd - derbyniais dair tudalen y diwrnod o'r blaen am eu cantrefi a'u teuluoedd a'r pêl-droed, er nad oeddwn yn deall pob dim am bêl-droed"**.

Sylwodd athro yn yr ysgol fod y **"plant yn gyfeillgar, gofalgar a pharchus pan maent yng nghwmni'r bobl hŷn"**. Ymddengys fod hyn mewn ymateb i'r awyrgylch y mae bod yng nghwmni ei gilydd yn ei greu, y mae un o'r disgyblion yn ei ddisgrifio fel **"braf a chyfeillgar"**.

Ychwanega preswlydd fod y **"plant yn gwneud eu gorau i nimaen'n wych - rwy'n ei fwynhau'n fawr"**.

Mae'r plant wedi meithrin sgiliau wrth drefnu a chyhoeddi'r gweithgareddau y maent yn eu gwneud gyda'r preswylwyr. Mae dau ddisgybl, gyda rhai cyd-ddisgyblion o Ddosbarthiadau 6 a 7 yn gwneud poster bob pedair i chwe wythnos gyda manylion y gweithgareddau ar y gweill yn yr ysgol ac yn ei arddangos yn Montgomerie Court i wahodd preswylwyr (gweler tudalen 2). Mae yna rywbeth ymlaen y rhan fwyaf o wythnosau. Eglura un o'r disgyblion sy'n gwneud y posteri ei bod yn cael y syniadau o bethau y mae hi wedi'u gwneud o'r blaen gyda'i theulu - megis y lluniau babis.

Nawr bod y disgyblion yn cynllunio ac yn trefnu, yr oll sydd raid i'r Warden wneud yw darparu ystafell pan maent yn ymweld â Montgomerie Court, nid oes rhaid i'r Gweithiwr Datblygu Doethineb Gwledig wneud unrhyw beth. Fodd bynnag, mae hi wedi cadw mewn cysylltiad â'r preswylwyr sydd bellach â diddordeb mewn ffyrdd eraill o gryfhau cysylltiadau yn Eaglesham, yn benodol canfod y lle iawn gyfer 'Sesiynau Paned a Sgwrs', fel y gall pobl ddod ynghyd mewn lleoliad hygyrch, anffurfiol.

Adnoddau

Gallwch ddarganfod mwy o wybodaeth ac adnoddau yn: www.ruralwisdom.org

Astudiaethau achos eraill o Doethineb Gwledig:

1. 'What's On' (Aberdaugleddau)
2. Grŵp Trafnidiaeth (Ucheldir Swydd Perth)
3. Gwaith Rhyng-genedlaethol (Eaglesham)
4. Caffi Cymunedol (Coed-llai)
5. Grŵp Canu (Brechin)

Darllen mwy yma:

www.ndti.org.uk/news/rural-wisdom-evaluation

Pwynt Cyswilt Gwerthuso

Carol Clifford
Arweinydd y Rhaglen (Heneiddio â Phobl Hŷn) E-
bost: Carol.Clifford@ndti.org.uk
Ffôn: 01225 789135

Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant
(NDTi)
Llawr Cyntaf
30-32 Westgate Buildings
Caerfaddon BA1 1EF

www.ndti.org.uk

